

## REPORT OF THE CHIEF EXECUTIVE

---

### **SUBJECT: WELSH GOVERNMENT REMIT LETTER**

#### **Introduction**

The Minister for Environment, Energy and Rural Affairs provides the Pembrokeshire Coast National Park Authority (PCNPA) with an Annual Remit letter. The Remit letter sets out the Welsh Government's strategic remit for Pembrokeshire Coast National Park Authority in 2021-22 and also outlines the funding settlement. A copy of the Remit letter is included as Annex A.

The main priorities outlined in the Remit letter are incorporated in the Corporate Plan.

Members are asked to note the Remit Letter.

#### Financial considerations

The Remit letter outlines the budget settlement provided by the Welsh Government.

#### Risk considerations

The Authority takes account of the Remit Letter when planning its work and managing risk.

#### Compliance

The Authority follows an agreed process for reporting on progress to deliver the outcomes identified in the Remit letter.

#### **Recommendation**

**Members are asked to note the Remit Letter from the Minister for Environment, Energy and Rural Affairs.**



Ein cyf: MA/LG/4422/20

Y Cyngorydd Paul Harries  
Cadeirydd  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

[paulh@pembrokeshirecoast.org.uk](mailto:paulh@pembrokeshirecoast.org.uk)

9fed Mawrth 2021

Annwyl Paul,

## Cylch Gwaith Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar gyfer 2021-22

### Cyflwyniad

Mae'r llythyr hwn yn nodi cylch gwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr Awdurdod) yn 2021-22.

Wrth bennu'r cylch gwaith hwn, rwy'n cydnabod bod cylchoedd cynllunio Parciau Cenedlaethol yn hirdymor eu natur. Felly, er y byddwn yn adolygu ac yn diweddarau'r llythyr cylch gwaith hwn bob blwyddyn, dylid deall bod llawer o'r themâu a'r amcanion yn berthnasol i'ch sefydliad dros gyfnod hwy.

Daeth 2020 â llawer o heriau yn ei sgil, o ran ei effeithiau cyllidol ac o ran rheoli niferoedd digynsail o ymwelwyr. Rwy'n ddiolchgar i'n staff am eu hymrwymiad wrth ddelio mewn ffordd bositif a phroactif â'r heriau hyn. Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r ffordd y mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) wedi cydweithio â chyrff eraill ac â thimau Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Rwy'n grediniol bod yr ymrwymiad hwn i weithio mewn tîm yn golygu ein bod fel gwlad yn rheoli'n cefn gwlad mewn ffordd fwy cydlynus ac effeithiol, hynny yn ystod un o'r cyfnodau mwyaf anodd rydym wedi'i wynebu erioed.

### Cyllid

Mae'r hinsawdd ariannol yn 2021-22 yn parhau i fod yn heriol. Ar ôl gwranddo ar eich pryderon am yr anawsterau y byddai unrhyw ostyngiad i'ch grant refeniw craidd yn eu hachosi i'ch Awdurdod, rwyf wedi penderfynu cynyddu'r grant craidd a roddir i chi gan Lywodraeth Cymru 10% o'i gymharu â 2020-21. Mae hyn yn golygu mai'r grant refeniw craidd gan Weinidogion Cymru i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 yw £3,249,433.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru)  
[Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales](mailto:Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Setliad ariannu blwyddyn yn unig sydd wedi'i ddyrannu inni gan Lywodraeth y DU. O ystyried ei bod o hyd yn gyfnod o drawsnewid ar ôl ymadael â'r UE, y daw cyfnod o ailadeiladu ar ôl pandemig y Covid-19 yn ogystal â'r diffyg eglurder ynghylch argoelion cyllidol y DU, mae'n her ddigynsail i Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynlluniau gwariant ar gyfer y dyfodol. Ni allwn felly ddarparu ffigurau ar gyfer 2022-23 a thu hwnt, hyd yn oed rhai bras.

Mae'r 10% o gyllid ychwanegol yn cael ei roi i APCau iddynt allu recriwtio rhagor o staff rheng flaen fel wardeiniaid. Ceir potensial i dargedu pobl ifanc, gan ddarparu llwybrau gyrfaol at gadwraeth, rheoli tir a lletygarwch. Bydd hefyd yn gwneud APCau yn fwy abl i gyfrannu'n broactif at yr Adferiad Gwyrdd. Mae APCau'n gallu hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, datgarboneiddio, bioamrywiaeth a mesurau i liniaru'r newid yn yr hinsawdd ond mae diffyg capasiti yn ffrwyno'ch potensial. Mae Parciau Cenedlaethol cydnerth yn hanfodol i roi nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a ddisgrifir yn y llythyr hwn ar waith. Mae'r arian ychwanegol wedi'i neilltuo i chi allu cyflawni yn y meysydd hyn.

Yn 2020-21, neilltuodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol sylweddol i APCau hefyd fel cydnabyddiaeth o'r heriau y maent yn eu hwynebu a'r gwaith pwysig a wnânt. Gyda'i gilydd, roedd hynny'n werth rhyw £2.5m.

Rwyf hefyd wedi sicrhau £8.9 miliwn o arian cyfalaf ar gyfer y rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (SLSP), sy'n cynnwys hyd at £3m ar gyfer y Parciau Cenedlaethol. Bydd hyn yn adeiladu ar lwyddiant rhaglen SLSP 2020-21 a welodd cynnal nifer o brosiectau arloesol, er gwaetha'r heriau aruthrol a achoswyd gan y Covid. Rwy'n awyddus i weld y gronfa'n parhau i daclo rhai o'n heriau a'n cyfleoedd mwyaf, megis datgarboneiddio, twristiaeth gynaliadwy ac adfer ar ôl Covid ac rwy'n arbennig o awyddus i weld prosiectau cydweithredol yn cael eu cynnal ar draws Tirweddau Dynodedig gwahanol.

Mae'r setliad ariannol yn fynegiant cryf o'n hyder yn Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a'u rhan annatod yn ein bywyd cenedlaethol. Rhaid felly wrth arweiniad cryf a phendant ac rwy'n gwerthfawrogi y gall hynny olygu gorfod gwneud penderfyniadau anodd o hyd am eich gweithgareddau, i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i chi. Rwy'n disgwyl ichi ganolbwyntio ar y gweithgareddau hynny sy'n esgor ar y nifer mwyaf o fuddiannau i Gymru, i wneud eich dyletswyddau statudol ac yr un pryd, parhau i geisio cyfleoedd i gynyddu'ch incwm masnachol ac i gydweithio mwy.

### **Yr Agenda Strategol**

Yn ogystal ag ateb eich dibenion statudol, mae deddfwriaeth a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer Cymru yn rhoi cyfrifoldebau ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Rydym yn unigryw yn y DU am fod gennym ddeddfwriaeth sy'n rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Rwy'n rhoi pwyslais mawr ar ein fframwaith deddfwriaethol.

Mae'r uchelgeisiau beiddgar a nodir yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys o ran Datblygu Cynaliadwy. Rydych eisoes wedi cymryd camau cadarnhaol i gyfochri eich gwaith cynllunio â'r Ddeddf hon a dylech barhau i fyfrio ar eich gweithgareddau a'u haildylunio yng ngoleuni ei nodau. Mae adolygiadau a datblygiadau polisi diweddar wedi pwysleisio'r cyfleoedd amlwg sy'n bod i Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gydweithio ar lefel leol a chenedlaethol i fynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf Cymru. Mae'r rheini'n cynnwys rhai o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru sy'n cael eu disgrifio isod, sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth a thwristiaeth gynaliadwy.

Fel rhan o'r ymdrech i gyflawni'r amcanion hyn, pleser oedd gweld sefydlu Partneriaeth Tirweddau Dynodedig Genedlaethol yn 2020. Rwy'n disgwyl ymlaen at ei gweld yn bwrw gwreiddiau a thyfu yn 2021-22. Rhaid i'r Bartneriaeth ddod â'n galluoedd a'n hadnoddau ynghyd i ni allu ymateb yn greadigol i rai o'n heriau mwyaf. Rhaid iddo fod yn fforwm o bartneriaid cyfartal fydd yn datgloi potensial ein AHNEau er mwyn iddyn nhw allu chwarae mwy o ran yn ein hymateb i'r heriau hyn.

Rwy'n disgwyl i'r Bartneriaeth hon sbarduno rhagor o gydweithio yn y dyfodol a bydd gen i ddiddordeb mawr yn ei hanes.

### **Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y Senedd gyntaf yn y byd i ddatgan ei bod yn **argyfwng hinsawdd**. Mae'r ychydig flynyddoedd nesaf yn bwysig ar gyfer ysgogi gweithgarwch yn y maes. Mae sicrhau ynni adnewyddadwy o dechnolegau priodol i ddiwallu anghenion lleol am ynni yn well, i reoli dŵr a dal carbon yn hanfodol bwysig wrth helpu Llywodraeth Cymru i wneud ei dyletswydd o dan **Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** a sicrhau y bydd ein hallyriadau yn 2050 o leiaf 95% yn is na'r llinell sylfaen a bennir yn y ddeddfwriaeth.

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais y bydd Sector Cyhoeddus Cymru yn garbon niwtral erbyn 2030 a thrwy'r rhaglen SLSP, mae'n ariannu nifer o brosiectau datgarboneiddio ichi allu cefnogi'r uchelgais hwn.

Un elfen allweddol o'n hymdrech i daclo hinsawdd sy'n newid yw'n hymrwymiad i greu o leiaf 2,000 hectar o goetir newydd bob blwyddyn. Rydym wedi cynyddu cyllideb cynllun Creu Coetir Glastir yn sylweddol. Rhaid ymgynghori ag APCau ar lawer o'r cynlluniau coetir newydd a hoffwn ichi sicrhau'ch bod yn ymateb i'r ymgynghoriadau hyn yn brydlon gan hwyluso creu coetiroedd newydd lle bo hynny'n briodol. Hoffwn eich gweld hefyd yn cymryd rhan go iawn yn rhaglen y Goedwig Genedlaethol a'i hamcan o wella a chreu coetiroedd newydd fydd yn cyfrannu at rwydweithiau ecolegol cryf o Fôn i Fynwy.

Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i weithredu i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a bydd rôl allweddol Parciau Cenedlaethol yn parhau yn hyn o beth. Mae ecosystemau'n dibynnu ar fioamrywiaeth i allu gweithio'n effeithiol, ac felly mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cryfhau'r ddyletswydd mewn perthynas â bioamrywiaeth ac ecosystemau y mae disgwyl i APCau ei hysgwyddo. Mae'n flaenoriaeth i dirweddau dynodedig wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cryf. Rwyf am weld gwaith yn y maes hwn yn parhau yn 2021-22.

Mae cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cryf yn 'ateb sy'n seiliedig ar natur' ac mae ganddo ran yn ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar Adfer Natur newydd. Dylai Parciau Cenedlaethol weithio hefyd â Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatganiadau ardal i sicrhau bod eu cynlluniau a'u gwaith yn rhoi'n polisi ar Adnoddau Naturiol ar waith.

Nodau'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndir (NPAP) yw adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cryf, taelo'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Bydd APCau yn bartneriaid pwysig ar gyfer cyflawni'r nodau hyn a dylent gydweithio ag CNC i fynd i'r afael â'r blaenoriaeth a nodir yn fframwaith 5 mlynedd yr NPAP.

### **Ffyniant, Cydraddoldeb ac Adferiad Gwyrdd**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i *Adferiad sy'n seiliedig ar Werthoedd* wrth inni gamu o'r ymateb economaidd tymor byr i Covid-19 i adfywiad tymor hwy. Sail yr adferiad yw tegwch a chynhwysedd, i sicrhau bod ein gwaith ailadeiladu yn esgor ar economi wyrddach, glanach a mwy cynaliadwy. Mewn geiriau eraill, adferiad fydd yn helpu i wella'n llesiant yn ei holl agweddau. I'r perwyl hwn, ffocws ein hymdrechion economaidd fydd lleoedd, pobl, y digidol a'r gwyrdd ac adferiad cyfiawn.

Bydd adferiad gwyrdd a chyfiawn yn sicrhau bod yr adferiad yn mynd i'r afael â heriau amgylcheddol a chymdeithasol sylfaenol. I adferiad fod yn wyrdd, rhaid iddo fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd ac â'i effeithiau anghymarus ar y mwyaf bregus; gwneud Cymru'n fwy abl i wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid, fel mwy o lifogydd a chyfnodau o wres mawr; gwyrddo'i'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a thaelo defnydd anghynaliadwy o'n hadnoddau, gan fynd i'r afael nid yn unig ag effaith hynny yng Nghymru ond dramor hefyd. Bydd Parciau Cenedlaethol yn lleoedd naturiol i dreialu a datblygu arferion newydd.

Amcan tymor hir Llywodraeth Cymru yw adeiladu Cymru lle caiff pawb fyw bywyd iach, llewyrchus a buddiol. Byddaf yn disgwyl i APCau gefnogi cymunedau cydnerth, gan greu cyfleoedd a milwrio yn erbyn anghydraddoldebau mewn iechyd, addysg ac o ran uchelgais. Hoffwn iddynt adfywio'u huchelgais i gyrraedd holl bobl Cymru, o fewn ffiniau'r Parciau a thu hwnt, i wneud yn siŵr bod pawb yn elwa ar y buddiannau a ddaw o gymryd rhan, ac i helpu i greu llwybrau at waith. Bydd hynny'n cyd-fynd â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ddaw i rym ar 31 Mawrth 2021 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys APCau, ystyried sut gall eu gweithredoedd strategol sicrhau canlyniadau gwell i'r rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd dull o'r fath hefyd yn cefnogi APCau i gyflawni eu dyletswydd statudol i osod amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant fel sy'n ofynnol gan ein deddfwriaeth tlodi plant. Galluogi pobl i fwynhau'ch rhinweddau wrth gwrs yw un o'ch dibenion statudol. Mae gan APCau, trwy weithio mewn partneriaeth, ran allweddol wrth chwalu'r rhwystrau, fel trafndiaeth, sy'n atal pobl rhag cymryd rhan.

### **Ffermio yn y Dyfodol**

Mae'r Parciau Cenedlaethol yn gartref i gymunedau ffermio sydd wedi gweithio a ffurfio'r tirluniau o'u cwmipas ers miloedd o flynyddoedd. Mae ffermio cynaliadwy yn rhan annatod o'u tirlun a gall fod yn sylfaen i amcanion llawer o'r polisïau a ddisgrifir yn y llythyr hwn.

Rwy'n ddiolchgar ichi am eich cyfraniad at ein hymgyngoriadau ar gyfeiriad amaethyddiaeth yn y dyfodol wrth inni adael yr Undeb Ewropeaidd ac edrychwn ymlaen at weld y cyfraniad hwnnw'n parhau wrth inni ddechrau ar y dylunio manwl.

## **Twristiaeth gynaliadwy a hamdden awyr agored**

Un o'r prif resymau y mae ymwelwyr yn dewis dod i Gymru yw ansawdd a hygyrchedd yr amgylchedd naturiol. Mae tirweddau yn nodwedd amlwg o frand twristiaeth Cymru ac mae Croeso Cymru, yn ei Strategaeth Twristiaeth newydd i Gymru 2020-25, yn cydnabod pa mor bwysig ydynt, a pha mor fregus. Mae'n amlwg sut gall y pwysau ar seilwaith lleol niweidio profiadau ymwelwyr a rhoi straen ar y berthynas â chymunedau lleol. Mae'r Strategaeth yn cydnabod ein tirweddau trawiadol fel un o brif asedau Cymru, gan gydnabod y ddyletswydd sydd arnom i sicrhau nad yw'r rhinweddau arbennig sy'n denu pobl i ymweld â nhw yn cael eu peryglu.

Mae sefyllfa Cymru a'r byd wedi newid yn fawr ers lansio'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion sylfaenol yn dal i fod yn berthnasol wrth i ni edrych tuag at ddyfodol twristiaeth. Rwy'n disgwyl ichi gefnogi a gweithredu atebion i'r pwysau ar seilwaith lleol, gan gynnwys trafndiaeth. Rhaid ichi gydbwyso hynny â phwysigrwydd twristiaeth i economi Cymru a'ch rhan chi o ran diwallu anghenion ymwelwyr trwy gydweithio â phartneriaid sy'n cynnig profiadau sy'n apelio at farchnadoedd blaenoriaeth.

Fel y gwyddoch rydym mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cynnal rhaglen fanwl o waith i ddiwygio a symleiddio mynediad at gefn gwlad. Rwy'n croesawu cyfraniad y Parciau Cenedlaethol at y rhaglen strategol bwysig hon. Caiff adroddiad arni ei chyflwyno i mi yn 2021-22.

Mae hwyluso a hyrwyddo hamdden awyr agored hefyd yn rhan bwysig o gyflawni strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, ein cynllun hirdymor i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru. Mae thema Amgylchedd Iach y strategaeth yn darparu amcan yn ymwneud â'n hamgylchedd egnïol a sut y gall gwella ansawdd ein mannau gwyrdd gefnogi ac ysgogi ein cymunedau. Bydd angen i chi gydweithredu, a gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill, i gefnogi dulliau sy'n amlygu iechyd meddwl, iechyd corfforol a llesiant cadarnhaol.

## **Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg**

Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn warchodwyr hefyd ar amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig y Parciau. Dylech weithio gyda phartneriaid fel Cadw, Amgueddfa Cymru, yr Ymddiriedolaethau Archeolegol ac eraill i ddiogelu, rheoli a dehongli'r etifeddiaeth bwysig hon.

Mae gan Dirweddau Dynodedig rôl bwysig wrth godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o werth yr iaith Gymraeg ac wrth hwyluso mwy o ddefnydd ohoni - fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol ac fel sgil pwysig mewn bywyd modern. Credaf hefyd fod cynaliadwyedd hirdymor llawer o'n tirweddau mwyaf sensitif wedi'i gydblythu â chynaliadwyedd y Gymraeg a'i diwylliant. Dylech barhau i ddatblygu polisiau sy'n sicrhau y gall pobl fyw a gweithio yn eu cymunedau ac y gall y Gymraeg ffynnu.

Rwy'n disgwyl ymlaen at weithio gyda chi, gan rannu'r un ymrwymiad ac at ddibenion cyffredin, dros y flwyddyn sydd i ddod a thu hwnt. Rwy'n awyddus i gefnogi Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wrth i chi fynd ati i ddatblygu'ch blaenoriaethau eich hun a helpu i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw i ran Cymru gyfan.

Cofion,

A handwritten signature in black ink, reading "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large initial 'L' and 'G'.

**Lesley Griffiths AC/AM**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Cc: Tegryn Jones, Prif Swyddog Gweithredol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfodir Penfro